




| | | | |
|---|---|---|---|
| Titradiad |  © Dan Bright | Mae'r dechneg hon yn caniatáu i rywun bennu crynodiad cemegyn mewn hydoddiant. | Mae'r gwyddonydd biodadansoddol hwn yn dadansoddi crynodiadau meddyginiaethau newydd mewn cleifion. |
| Adnabod ïonau |  | Gellir defnyddio profion ïonau i nodi presenoldeb ïonau metel ac anfetelau penodol. | Mae'r gwyddonydd hwn yn chwilio am amhureddau mewn bwyd a chynhyrchion fferyllol i wirio eu bod nhw'n ddiogel. |
| Distyllu syml |  | Gellir defnyddio distyllu i wahanu sylweddau â berwbwyntiau gwahanol e.e. puro dŵr. | Mae'r peiriannydd cemegol hwn yn monitro purdeb dŵr i wneud yn siŵr ei fod yn ddigon pur i'w ddefnyddio yn yr orsaf bŵer. |




© Royal Society of Chemistry

Registered charity number 207890

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cromatograffeth |  | Gellir defnyddio'r dechneg hon i wahanu, adnabod a phuro'r cyfansoddion mewn cymysgedd. | Mae'r gwyddonydd fforensig hwn yn gweithio i'r heddlu, yn dadansoddi samplau biolegol ar gyfer cyffuriau. |
| Cyfraddau adwaith |  | Er mwyn gwneud adweithiau mor effeithlon â phosibl, mae rhaid i wyddonwyr ddeall sut mae gwahanol amodau'n newid eu cyflymder. | Mae'r gwyddonydd hwn yn defnyddio cyfrifiaduron i fodelu adweithiau er mwyn iddyn nhw allu dewis y rhai a fydd yn gwneud meddyginiaethau llwyddian |
| Electrolysis |  | Gellir defnyddio'r dechneg hon i wahanu metelau o bob math o ffynonellau, er enghraifft mwynau metel neu fatris. | Mae'r ymchwilydd hwn yn gweithio ar y ffordd orau o ailgylchu metelau o'r batris mewn ceir trydan. |

© Royal Society of Chemistry

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwneud halwynau |  | Mae mwy i'r math hwn o gyfansoddyn na choginio yn unig. Maent yn chwarae rolau pwysig mewn meddygaeth, amaethyddiaeth a lliwio, i enwi ond ychydig. | Mae'r datblygwr meddalwedd hwn yn helpu gwyddonwyr i ddod o hyd i foleciwlau sydd â'r strwythur cywir ar gyfer swydd benodol. |
| Mesur newidiadau ynni |  | Mae deall sut mae gwahanol adweithiau'n amsugno neu'n rhyddhau egni yn bwysig er mwyn i wyddonwyr wybod sut y gellir eu defnyddio. | Mae'r cemegydd hwn wedi gwneud haenau sy'n cynhyrchu egni ar gyfer adeiladau. |
| Synthesis organig |  | Dewch i ddeall sut y gall moleciwlau organig adweithio gyda'i gilydd i wneud sylweddau newydd â phriodweddau penodol. | Mae'r cemegydd hwn yn gwneud peptidau y gellid eu defnyddio mewn meddyginiaethau newydd sy'n newid bywydau. |

© Royal Society of Chemistry

Registered charity number 207890

© Royal Society of Chemistry

Registered charity number 207890